O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 1211 (Cy. 250)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Broad Street a High Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 4) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Tachwedd 2022* |
| *Yn dod i rym* | *26 Tachwedd 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Ffair Aeaf y Trallwng, ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Broad Street a High Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 4) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Tachwedd 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 12:00 o'r gloch ar 26 Tachwedd 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Broad Street a High Street yn y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â The Cross hyd at ben deheuol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Jehu Road.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Tachwedd 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru